

Yr Hawl i Weithio yn y DU - nes 30 Mehefin 2021

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod holl staff y cyngor yn gymwys i weithio yn y DU a bod Cyngor Sir Ddinbych yn cadw tystiolaeth o hyn ar gyfer pob unigolyn. Byddwch yn ymwybodol na fydd modd i chi ddechrau gweithio hyd nes i ni gael copi o'r dystiolaeth angenrheidiol yn unol â'r isod. Bydd methu â darparu'r wybodaeth hon yn arwain at dynnu'r cynnig o gyflogaeth yn ôl.

Nes 30 Mehefin, 2021, mae'r DU wedi cyflwyno Cyfnod o Ras, i ganiatáu i ddinasyddion o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir barhau i weithio yn y DU wrth wneud cais i gymhwyso, drwy un ai Gynllun Setliad yr UE, neu'r system fewnfudo newydd sy'n seiliedig ar bwyntiau. Mae dinasyddion o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir yn wladolion o'r gwleidydd isod:

- | | | | |
|----------------------|---------------|------------------|-------------|
| • Awstria | • Y Ffindir | • Liechtenstein | • Slofacia |
| • Gwlad Belg | • Ffrainc | • Lithwania | • Slofenia |
| • Bwlgaria | • Yr Almaen | • Lwcsembwrg | • Sbaen |
| • Croatia | • Gwlad Groeg | • Malta | • Sweden |
| • Cyprus | • Hwngari | • Yr Iseldiroedd | • Y Swistir |
| • Y Weriniaeth Tsiec | • Gwlad yr Iâ | • Norwy | |
| • Denmarc | • Iwerddon | • Gwlad Pwyl | |
| • Estonia | • Yr Eidal | • Portiwgal | |
| | • Latfia | • Romania | |

Gall ddinasyddion o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ddangos eu hawl i weithio yn y DU drwy gyflwyno dogfen o'r rhestr isod, neu drwy ddefnyddio gwasanaeth ar-lein y Swyddfa Gartref a rhannu'r cod a gynhyrchwyd gyda hrdirect@denbighshire.gov.uk Os ydych chi'n defnyddio'r gwiriad â llaw, ac yn cyflwyno'r ddogfen o'r rhestrau isod, nodwch bod rhaid dangos y dogfennau gwreiddiol.

Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i aelodau teulu nad ydynt yn ddinasyddion o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd, dinasyddion nad ydynt yn rhan o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd gyda Hawl Preswyl Deilliadol a'r sawl gyda dinasyddiaeth Brydeinig, neu mae ganddynt hawl i aros yn y DU am gyfnod amhenodol.

Rhestr A

Hawl parhaol i weithio yn y DU

Pasbort dilys yn dangos fod y deiliad, neu berson a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd Prydeinig, neu'n ddinesydd y DU a'r Trefedigaethau gyda'r hawl i breswyllo yn y DU.

Pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol yn dangos fod y deiliad, neu berson a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd gwlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.

Tystysgrif Gofrestru neu Ddogfen Ardystio Preswyliaid Parhaol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, i ddinesydd o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

Cerdyn Preswyliaid Parhaol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, i aelod o deulu'r dinesydd o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

Dogfen Mewnfudo Biometreg gyfredol (Trwydded Breswyl Biometreg) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos bod gan yr unigolyn a enwir ganiatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Unedig, neu nad oes unrhyw gyfyngiad ar ei arhosiad yn y DU.

Pasbort cyfredol yn ardystio bod y deiliad wedi'i eithrio o reolaeth mewnfudo, ac wedi'i ganiatáu i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, gyda hawl i breswyllo yn y DU, neu nad oes unrhyw gyfyngiad ar ei arhosiad yn y DU.

Dogfen Statws Mewnfudo cyfredol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag ardystiad yn nodi bod y person a enwir gyda chaniatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y DU neu nad oes unrhyw gyfyngiad ar ei arhosiad yn y DU, ynghyd â dogfen swyddogol, yn cynnwys Rhif Yswiriant Gwladol y person a'u henw wedi'i gyhoeddi gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

Tystysgrif geni neu fabwysiadu a gyhoeddwyd yn y DU, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

Tystysgrif geni neu fabwysiadu (byr neu hir) a gyhoeddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu Iwerddon, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

Tystysgrif cofrestru neu frodori fel dinesydd Prydeinig, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyhoeddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

Rhestr B

Hawl dros dro i weithio yn y DU (nes dyddiad terfyn ymadael)

Pasbort **cyfredol** sy'n arnodi fod gan y deiliad hawl i aros yn y DU ac mae ganddynt hawl i wneud y math o waith dan sylw ar hyn o bryd.

Dogfen Mewnfudo Biometreg **gyfredol** (Trwydded Breswyl Biometreg) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos bod gan yr unigolyn a enwir ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ac mae ganddynt hawl i wneud y gwaith dan sylw.

Cerdyn Preswyl **cyfredol** (gan gynnwys Cerdyn Preswyl Derbynodi neu Gerdyn Preswyl Deilliadol) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd gwlad o'r Ardal Economaidd tu allan i Ewrop sy'n aelod o deulu dinesydd o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir neu sydd â hawl deilliadol i breswyllo.

Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** yn cynnwys llun a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag ardystiad dilys yn nodi bod y person a enwir gyda chaniatâd i aros yn y DU, ac â'r hawl i wneud y math o waith dan sylw, **ynghyd â** dogfen swyddogol, yn cynnwys Rhif Yswiriant Gwladol y person a'u henw wedi'i gyhoeddi gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

Rhestr B

Hawl dros dro i weithio yn y DU (am hyd at 6 mis)

Tystysgrif o Gais a gyhoeddwyd y Swyddfa Gartref dan reoliad 18(3) neu 20(2) Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016, i aelod o'r teulu neu ddinesydd o wlad yn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, gan nodi fod gan y deiliad hawl i gymryd gwaith sy'n llai na 6 mis ynghyd â Hysbysiad Dilysiad Cadarnhaol gan Wasanaeth Gwirio Gweithiwr y Swyddfa Gartref.

Cerdyn Cofrestru Cais a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref sy'n nodi bod gan y deiliad hawl i gymryd y gyflogaeth dan sylw, ynghyd â Hysbysiad Dilysiad Cadarnhaol gan Wasanaeth Gwirio Gweithiwr y Swyddfa Gartref.

Hysbysiad Dilysiad Cadarnhaol gan Wasanaeth Gwirio Gweithiwr y Swyddfa Gartref i'r cyflogwr neu'r darpar weithiwr, sy'n nodi bod y person a enwyd yn cael aros yn y DU, gyda hawl i wneud y gwaith dan sylw.

Nodwch, bydd gwiriad dilynol o hawl unigolion i weithio yn y DU yn cael ei gynnal os oes cyfyngiad amser ar y ddogfen yn unol â Rhestr B - caiff hyn ei gynnal pan ddaw dyddiad y ddogfen i ben.

Gall y sawl sy'n dymuno cyflwyno eu tystiolaeth o'u hawl i weithio yn y DU gan ddefnyddio gwasanaeth ar-lein y Swyddfa Gartref wneud hynny drwy fynd i <https://www.gov.uk/prove-right-to-work>. Gallwch anfon y cod cyswllt mewn e-bost at hrdirect@denbighshire.gov.uk neu gynhyrchu e-bost i'r un cyfeiriad drwy'r system ar-lein. Yna bydd y tîm AD yn gwirio eich hawl i weithio yn y DU drwy <https://www.gov.uk/view-right-to-work>

Ar 1 Ionawr 2021, gweithiwr gyda Thrwydded Noddwr yn unig fydd â hawl gyfreithiol i gyflogi unigolion sy'n dod i mewn i'r DU ar deitheb Gweithiwr Medrus.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu ag Adnoddau Dynol ar 01824 706200 neu anfonwch e-bost hrdirect@denbighshire.gov.uk

Diolch